Mewn partneriaeth gyda'r

ganolfanbydgwaith


Adran Gwaith a Phensiynau

CYMORTH AR GYFER GWEITHWYR A EFFEITHIWYD GAN CARILLION YN CAU

# Ffeithlen Ddiswyddo a Hawlio Budd-daliadau

Mae cael eich diswyddo yn heriol. Ond mae cymorth a gwybodaeth ar gael i'ch helpu i ddod o hyd i swydd newydd, deall pa fudd-daliadau y gallwch eu hawlio a rhoi ffynonellau gwybodaeth ddefnyddiol i chi.

Mae angen gweld llawer o'r wybodaeth yn y ffeithlen hon ar-lein. Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur neu'r Rhyngrwyd, gallwch ddefnyddio'r rhain mewn Canolfan Gwaith neu lyfrgell.



## Ble allaf ddod o hyd i help i gael swydd arall?

Eich Canolfan Byd Gwaith leol. Dewch o hyd i fanylion yn **www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith**

Gallant eich helpu i:

- cael y cyfatebion swyddi gwag gorau
- canfod pa opsiynau hyfforddi sydd ar gael a'ch cyfeirio at y rhain
- trefnu treialon gwaith (os ydych yn gymwys)
- ymuno â chlwb gwaith
- os ydych yn anabl trwy ddweud wrthych am unrhyw gymorth ychwanegol sydd ar gael e.e. Mynediad at Waith sy'n helpu pobl sydd ag anableddau yn y gwaith.

Ewch i **www.gov.uk/mynediad-at-waith** i ganfod mwy

- hawlio arian os ydych yn gymwys i helpu i dalu costau ar gyfer teithio, gofal plant, offer neu gyfarpar

Defnyddiwch y gwasanaeth Paru Swyddi Ar-lein am ddim (sydd ar gael 24 awr diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos). Ewch i **www.gov.uk/chwilio-am-swydd** i:

- chwilio miloedd o swyddi gwag
- creu CV cyfredol er mwyn rhoi'r cyfle gorau i chi wneud argraff gyntaf da ar gyflogwr
- paru eich CV â'r swyddi rydych am eu gwneud a'u hanfon yn uniongyrchol i'r cyflogwr.

Cofiwch, mae eich CV yn bwysig gan ei fod yn aml y cyfle cyntaf i wneud argraff dda ar gyflogwr.

Gofynnwch yn eich Canolfan Gwaith leol am fanylion am eu Twitter eu hunain. Cewch weld llawer o swyddi gwag lleol a chael gwybod am ddigwyddiadau lleol i'ch helpu chi i ddychwelyd i'r gwaith.

Dilynwch ein cyfrif Twitter **@khubdwp** i ddysgu mwy am gyfleoedd cyflogaeth cenedlaethol a gwybodaeth gyrfaol.

## Hashnodau defnyddiol

**#BuildYourFuture** ar gyfer swyddi yn y sector adeiladu
**#JobsThatMove** ar gyfer swyddi logisteg
**#SiteServicesJobs** ar gyfer swyddi rheoli cyfleusterau

## Cymorth CITB

Mae gwefan CITB yn cynnig gwybodaeth ar swyddi gwag byw gyda chyflogwyr eraill gan gynnwys cymorth ar gyger prentisiaid Carillion
**www.citb.co.uk/support-carillion-workers/**

Lleooedd eraill i chwilio am swydd

- **gwefannau cwmni neu ewch i'w weld yn bersonol** – nid yw llawer o gyflogwyr yn hysbysebu eu swyddi gwag ond mae ganddynt adran swyddi gwag ar eu gwefan lle gallech wneud cais ar-lein
- **papurau newydd a chyfnodolion masnach** – darganfyddwch pa ddiwrnod y mae eich papur newydd lleol yn hysbysebu swyddi
- **ar lafar** – siaradwch â'ch teulu a'ch ffrindiau i ofyn a ydynt yn gwybod am unrhyw swyddi gwag
- **cyfryngau cymdeithasol** – edrychwch ar wefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter neu LinkedIn a hoffi neu ddilyn cyflogwyr yr hoffech weithio ynddynt
- **ffeiriau swyddi** – gwiriwch gyda'ch Canolfan Gwaith leol neu yn y papurau newydd.

## Prentisiaethau

Cewch wybod yr hyn sydd ar gael
**www.gov.uk/apply-apprenticeship**

## Hunangyflogaeth

Chwiliwch ar-lein yn **www.gov.uk/browse/business** Neu ewch i weld yr hyn sydd ar gael

- Cymru - **www.businesswales.gov.wales/cy**
- Lloegr - **www.nationalenterprisenetwork.org**
- yr Alban - **www.bgateway.com**

## Swyddi dramor

Dewch i weld mwy yma: **www.eures.europa.eu** neu ewch i wirio swyddi dramor ar Paru Swyddi Ar-lein

## Gwefannau defnyddiol

Mae sawl gwefan sy'n hysbysebu swyddi gwag, dyma rai ohonynt

- **www.totaljobs.com**
- **www.monster.co.uk**
- **www.indeed.co.uk**
- **www.jobsite.co.uk**
- **www.jobs.co.uk**
- **www.redgoldfish.co.uk**
- **www.fish4.co.uk**
- **www.graduate-jobs.com**
- **www.prospects.ac.uk**
- **www.gowales.co.uk**
- **www.education.gov.uk/get-into-teaching**

Os oes gennych sgiliau gweithgynhyrchu, peirianneg neu wyddonol, gallech gofrestru gyda 'Talent Retention Solution' yn **www.talentretention.biz**

Gallwch hefyd gofrestru gydag asiantaethau recriwtio sy'n arbenigo yn eich maes gwaith. Chwiliwch ar-lein i'ch rhai lleol ar wefan *The Recruitment Employment Confederation* yn **www.rec.uk.com/about-us/for-jobseekers/**

## Sut y gallaf wella fy sgiliau?

Gall eich Canolfan Gwaith leol eich helpu i nodi eich sgiliau, eich profiad, dyheadau gyrfaol a'ch anghenion hyfforddi posibl. Gallent hefyd helpu i drefnu hyfforddiant galwedigaethol.

Am wybodaeth i'ch helpu i gynllunio eich gyrfa, llunio CV a dod o hyd i swydd ewch i **www.gov.uk/career-skills-and-training**

Efallai y byddwch yn ystyried gwaith gwirfoddol i'ch helpu cael sgiliau newydd. Ewch i weld yr hyn sydd ar gael yn **www.gov.uk/government/get-involved/takepart/volunteer**

## Ble alla i gael cyngor ar faterion sy'n ymwneud â diswyddo?

I gael gwybod mwy am eich hawliau ewch i:

- **www.gov.uk/redundant-your-rights**
- **www.gov.uk/your-rights-if-youremployer-is-insolvent**
- **www.acas.org.uk**

## Os ydych yn byw yng Nghymru neu'r Alban

**Cymru -** mae cynllun gweithredu diswyddo Llywodraeth Cymru wedi'i anelu at helpu pobl i ddelio â cholli swydd. Mae gwahanol ffynonellau cymorth ar gael. Ewch i **www.careerswales.com/cy/jobs-and-training/unemployment-andredundancy/coping-with-redundancy/**

**Yr Alban -** *Partnership Action for Continuing Employment* yw fframwaith partneriaeth Llywodraeth yr Alban, gan helpu pobl sy'n delio â diswyddo. Ffoniwch linell gymorth diswyddo'r Alban ar **0800 917 8000** neu ewch i **www.redundancyscotland.co.uk**

## Am gyngor cyllido ac ariannol ewch i:

- **www.moneyadviceservice.org.uk/cy**
- **www.thedebtadvicenetwork.org**
- **www.nationaldebtline.co.uk**
- **www.citizensadvice.org.uk**
- **www.hmrc.gov.uk**
- **www.tuc.org.uk/carillion**

## Os oes angen i chi siarad â rhywun am ymdopi â cholli swydd ewch i:

- **www.samaritans.org**
- **www.relate.org.uk**
- **www.stepsforstress.org (Yr Alban yn unig)**

## Allaf i gael gwybod mwy am Bensiynau?

Os ydych wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n agosáu, efallai y bydd angen cyngor arnoch am bensiynau neu ymddeoliad.

- I weld beth sy'n digwydd am eich pensiwn yn y gweithle, gofynnwch i'ch cyflogwr blaenorol neu'ch darparwr pensiwn
- I gael gwybod mwy am eich Pensiwn y Wladwriaeth, gan gynnwys faint y gallech ei gael a phryd y gallwch ei hawlio, ewch i **https://www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth**
- Os ydych yn 50 oed neu'n hŷn ac yn meddu ar bensiwn cyfraniad diffiniedig, gallwch gael apwyntiad arweiniad diduedd am ddim gyda Pension Wise. Ffoniwch **0800 138 3944** i drefnu apwyntiad neu ewch i **www.pensionwise.gov.uk/cy**
- Am gyngor annibynnol ar bensiynau ewch i **www.pensionadvisoryservice.org.uk**
- Os bydd angen i chi wybod sut y gall ansolfedd effeithio ar bensiynau, ewch i **www.pensionprotectionfund.org.uk**



FAQ
Hawlio Budd-daliadau

# Rwyf mewn perygl o golli fy swydd - a allaf hawlio budd-daliadau?

Mae llawer o wybodaeth ar gael ar-lein i'ch helpu i ddeall pa fudd-daliadau y gallwch eu hawlio a rhoi ffynonellau cymorth a chymorth pellach i chi.

Mae angen mynediad at y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn y daflen ffeithiau hon ar-lein. Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur neu'r Rhyngrwyd, gallwch ddefnyddio'r rhain mewn Canolfan Gwaith neu lyfrgell.

## Beth allaf hawlio?

Mae pa fudd-daliadau y gallwch eu hawlio yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw ac amgylchiadau. Efallai y gallwch hawlio naill ai:

- Credyd Cynhwysol drwy fynd i **www.gov.uk/universal-credit**
- Lwfans Ceisio Gwaith drwy fynd i **www.gov.uk/lwfans-ceisio-gwaith** neu
- budd-daliadau eraill

Os ydych yn ansicr o'r hyn y gallwch ei hawlio, gallwch ddefnyddio cyfrifiannell budd-daliadau trwy ymweld â **www.gov.uk/benefits-calculators**.

## Beth sy'n digwydd os byddaf yn gwneud cais am fudd-dal a phryd y byddaf yn cael fy nhalu?

Gan ddibynnu ar ba fudd-dal rydych yn ei hawlio, bydd angen i chi fynychu cyfweliad yn eich Canolfan Gwaith leol o fewn ychydig ddyddiau o'r hawliad. Byddant yn gallu dweud wrthych pryd y gallwch ddisgwyl cael eich taliad cyntaf.

Os ydych yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, fel rheol mae'n cymryd 5 i 6 wythnos i asesu cais newydd a'ch taliad cyntaf i gyrraedd. Os oes angen help arnoch gyda'ch costau byw tra byddwch yn aros am eich taliad cyntaf, gallwch wneud cais am daliad ymlaen law. Bydd angen i chi dalu'ch taliad ymlaen llaw  yn ôl ychydig ar y tro o'ch taliadau Credyd Cynhwysol yn y dyfodol.

Os ydych chi'n hawlio budd-dal, ond mae angen arian arnoch ar unwaith, gallwch wneud cais **am daliad ymlaen llaw.**

Gallwch ofyn am daliad Credyd Cynhwysol ymlaen llaw pan:

- fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol
- tra'ch bod yn aros am eich taliad cyntaf
- os rydych newydd roi gwybod am newid mewn amgylchiadau i ni

Gallwch **wneud cais am daliad ymlaen llaw** drwy fynd i **www.gov.uk/guidance/universal-credit-advances.**

Os byddwch yn gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith ac mae angen help arnoch gyda'ch costau byw tra byddwch yn aros am eich taliad cyntaf, gallwch wneud cais am fudd-dal tymor byr ymlaen llaw. Bydd faint o arian a gewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau. I wneud cais, bydd angen i chi ffonio **0800 328 1744**. Bydd angen talu budd-dal byrdymor yn ôl, a thrafodir hyn yn ystod yr alwad. Fel arfer, caiff rhywbeth ei ail-dalu o fudd-dal person hyd nes y caiff ei ad- dalu.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am daliadau budd-daliadau byrdymor trwy fynd i **www.gov.uk/short-term-benefit-advance**

## A allaf wneud cais cyn y byddaf yn colli fy swydd?

Os ydych yn gwybod bod eich cyflogaeth yn dod i ben ar ddyddiad penodol, efallai y gallwch hawlio budd-dal cyn y dyddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth am yr hyn y gallwch chi hawlio, a sut i wneud cais, ewch i **www.gov.uk/benefits-calculators**

Dewch o hyd i fanylion eich Canolfan Gwaith leol yn **www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith**

## Mae gennyf gontract o hyd ond heb gael unrhyw dâl, allaf i hawlio budd-daliadau?

Gallwch. Os ydych o dan gontract gwasanaeth gyda'ch cyflogwr ac nad oes gwaith, neu lai o waith, ar gael, gallwch wneud cais yn seiliedig ar eich amgylchiadau ar adeg gwneud yr hawliad hwnnw.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/benefits-calculators**

## Rwyf ar gontract oriau sero, allaf i hawlio unrhyw beth?

Efallai y gallwch wneud cais am fudd-dal yn dibynnu ar faint o waith a wnewch a'r enillion a gewch.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/benefits-calculators**

## Rwyf ar waith amser byr/mae fy oriau a'm cyflog wedi cael eu lleihau, allaf i hawlio budd-daliadau?

Os cewch eich rhoi ar amser byr gan eich cyflogwr, yn gweithio llai o ddyddiau nag arfer, gallwch wneud cais am fudd-daliadau. Bydd yr hyn y gallwch ei gael yn dibynnu ar y nifer o oriau rydych chi'n eu gweithio a/neu'r enillion a gewch ynghyd â'ch amgylchiadau personol eraill.

Os gallwch hawlio Credyd Cynhwysol, caiff ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r enillion a gewch. Os bydd angen i chi hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, ni ddylech fod yn gweithio 16 awr neu fwy'r wythnos ar gyfartaledd neu os oes gennych enillion sy'n fwy na swm penodol.

I gael gwybod mwy am y budd-daliadau y gallech eu hawlio, ewch i **www.gov.uk/benefits-calculators**

## Rwyf yn hunangyflogedig, allaf i hawlio budd-daliadau?

Gallwch wneud cais ond i gyfrifo os gallwch gael eich talu unrhyw beth, gofynnir i chi roi manylion eich hunangyflogaeth a'r incwm a gewch.

I gael gwybod mwy am fudd-daliadau y gallech eu hawlio ewch i **www.gov.uk/benefits-calculators**

Os ydych yn gallu hawlio Credyd Cynhwysol, gallwch gael gwybod mwy am sut mae'ch hunangyflogaeth yn cael ei ystyried drwy fynd i **www.gov.uk/self-employment-and-universal-credit**

## Beth os wyf eisoes yn hawlio Credyd Cynhwysol neu Lwfans Ceisio Gwaith a bod fy enillion yn lleihau neu'n stopio?

Os ydych yn hawlio budd-dal a bod eich amgylchiadau yn newid, dylech roi gwybod am y newid ar unwaith.

Os ydych eisoes yn hawlio Credyd Cynhwysol, byddai hyn fel arfer yn cynyddu os yw eich enillion yn is nag y buont.

## Oes unrhyw gymorth a chyngor i bobl a effeithir gan ddiddymiad Carillion?

Oes. Mae help ar gael drwy fynd i **www.pwc.co.uk/services/business-recovery/administrations/carillion.html**

Gallwch ffonio'r llinell gymorth ar **0800 0639 282** (ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos).

## Rwyf yn gyflogwr ac mae'n bosib y bydd yn rhaid i mi ddiswyddo pobl, oes unrhyw gyngor ar gael?

Oes. Mae gan wefan Acas ddogfen wybodaeth ddefnyddiol yn **www.acas.org.uk/media/pdf/1/1/Redundancy-handling-accessible-version.pdf**

Cymru Wales

Mewn partneriaeth gyda'r

ganolfanbydgwaith

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae CITB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (Rhif cofrestredig 264289) ac yn yr Alban (Rhif cofrestredig SC044875).
Argraffwyd ar ddeunydd gydag o leiaf 75% o gynnwys wedi'i ailgylchu.